Safonau'r Gymraeg (Cymru) Mesur 2011

Yn unol â'r gofynion a nodir yn ein Safonau Iaith Gymraeg 2016, mae'n ofynnol i'r Cwmni gasglu gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg. Byddai'r Cwmni yn gwerthfawrogi cefnogaeth a chydweithrediad pob ymgeisydd am swydd wrth ddarparu'r wybodaeth ganlynol.

Os ydych yn dymuno llenwi'r ffurflen hon yn Saesneg, defnyddiwch y fersiwn Saesneg sydd ar gael yn adran "English" adran Swyddi Gwag Cyfredol y wefan.

Sgiliau Iaith Gymraeg – Hunanasesiad i Ymgeiswyr

Enw ……

Swydd yr ymgeisir amdani……

Yn seiliedig ar y meini prawf isod, sut fyddech chi'n disgrifio eich sgiliau <u>gwrando</u> Cymraeg?

- ☐ Dim
- ☐ Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg ["Ble mae..?"; "Ga i siarad â..?"]
- ☐ Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg
- ☐ Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl
- ☐ Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau sy'n ymwneud â'r gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp
- ☐ Yn gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â'r gwaith

Yn seiliedig ar y meini prawf isod, sut fyddech chi'n disgrifio eich sgiliau <u>darllen</u> Cymraeg?

- ☐ Dim
- ☐ Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol (arwyddion neu nodiadau byr a syml)
- ☐ Yn gallu darllen deunydd syml sy'n ymwneud â'r gwaith (yn araf)
- ☐ Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur
- ☐ Yn gallu darllen y rhan fwyaf o'r deunydd yn eich maes eich hun
- ☐ Yn gallu deall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â'r gwaith

Yn seiliedig ar y meini prawf isod, sut fyddech chi'n disgrifio eich sgiliau <u>siarad</u> Cymraeg?

- ☐ Dim
- ☐ Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol (cyfarchion, enwau ac enwau lleoedd)
- ☐ Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith
- ☐ Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol.
- ☐ Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg
- ☐ Rhugl – yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau

Yn seiliedig ar y meini prawf isod, sut fyddech chi'n disgrifio eich sgiliau <u>ysgrifennu</u> Cymraeg?

- ☐ Dim
- ☐ Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol (Diolch am y llythyr...)
- ☐ Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth
- ☐ Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol
- ☐ Yn gallu paratoi'r rhan fwyaf o'r deunydd ysgrifenedig, gyda pheth cymorth gwirio
- ☐ Medrus – ym medru cwblhau gwaith ysgrifennu cymhleth heb yr angen i wirio

Diolch am lenwi'r ffurflen